Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Rheoli Safleoedd Gwaredu Morol

Mai 2023



# Cynnwys

**Diben** **3**

**Safleoedd Gwaredu Morol** **3**

**Rolau a Chyfrifoldebau** **3**

- Gweinidogion Cymru 3
- Cyfoeth Naturiol Cymru 4
- Ymgeisydd 4
- Cynghorwyr Gwyddonol Allanol 5
- Canolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu (Cefas) 5

**Opsiynau Rheoli Gwaddodion Morol a Garthwyd** **5**

Llun ar y clawr: Gwesty'r Harbourmaster, Aberaeron, Ceredigion

OGL © Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru, WG46973, ISBN digidol 978-1-80535-747-6
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

## Diben

Mae'r ddogfen hon yn nodi rolau a chyfrifoldebau'r rhai sy'n ymwneud â rheoli safleoedd gwaredu morol yn nyfroedd Cymru, sydd wedi'u dynodi i gael gwaddodion morol a garthwyd o wely'r môr.

## Safleoedd Gwaredu Morol

Mae gwaredu gwaddodion morol i safleoedd gwaredu dynodedig yn y môr wedi cael ei reoleiddio yn y DU ers dechrau'r 1960au. Yn gyffredinol, mae angen trwydded forol o dan Ran 4 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (Deddf 2009) i ddefnyddio safle gwaredu morol.

Ochr yn ochr â'r broses reoleiddio o dan Ddeddf 2009, mae'r DU yn barti contractio i Gonfensiwn Oslo-Paris ar Warchod yr Amgylchedd Morol yn rhan Ogledd-ddwyreiniol yr Iwerydd 1992 (OSPAR) a Phrotocol Llundain. Mae'r rhwymedigaethau rhyngwladol hyn yn ymwneud â rheoli'r amgylchedd morol ac maent yn cael eu hystyried mewn penderfyniadau ynghylch trwyddedau morol, gan nodi'r mathau o wastraff y caniateir eu dyddodi yn y môr ac arwain y gwaith o reoli'n gynaliadwy weithrediadau carthu a gwaredu.

Mae Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (WNMP) yn nodi bod gweithrediadau carthu a gwaredu yn hanfodol i'r sector porthladdoedd a llongau, gan helpu i sicrhau mordeithiau diogel cychod i borthladdoedd, harbyrau a marinas ac oddi wrthynt. Mae gweithgareddau carthu a gwaredu yn cael eu cydnabod fel gweithrediadau parhaus, ac mae disgwyl i'r galw am safleoedd gwaredu gynyddu mewn ymateb i ddatblygiadau morol cynaliadwy yn y dyfodol.

Mae nifer o ardaloedd yn nyfroedd Cymru sydd wedi'u dynodi er mwyn cael gwaddodion morol a garthwyd. Mae nifer y safleoedd yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn ac mae'n adlewyrchu gwaddodion morol yn bennaf o weithgareddau cynnal a chadw a chyfalaf carthu a wneir gan borthladdoedd a marinas. Yn gyffredinol, caiff safle gwaredu ei ddosbarthu yn 'agored' os yw safle ar gael i'w ddefnyddio ar hyn o bryd, mae 'segur' yn cyfeirio at safle nad yw wedi'i ddefnyddio ers cyfnod o bum mlynedd, ac mae safle'n cael ei ystyried 'ar gau' yn dilyn cyfnod segur o 10 mlynedd. Fe allai Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) gau safle hefyd os yw tystiolaeth newydd yn awgrymu bod dyddodion y gwaddodion morol yn cael effaith ar yr amgylchedd morol, ar iechyd pobl neu'n ymyrryd â defnyddiau cyfreithlon eraill o'r môr.

## Rolau a Chyfrifoldebau

### Gweinidogion Cymru

Gweinidogion Cymru yw awdurdod trwyddedu morol dyfroedd Cymru, mae CNC yn gweithredu ar eu rhan wrth benderfynu a dyroddi trwyddedau morol. Y Gweinidogion sy'n gyfrifol am osod llwybr polisi cyffredinol ar gyfer trwyddedu morol, apeliadau yn erbyn penderfyniad trwyddedu morol a chamau gorfodi. Gan gydnabod pwysigrwydd gweithrediadau carthu a gwaredu i ystod eang o sectorau mae Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn cynnwys polisïau sy'n berthnasol i'r sector carthu a gwaredu ac yn eu cefnogi.

### Adolygiad Strategol o Safleoedd Gwaredu

Drwy weithio mewn partneriaeth â CNC, mae Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiadau strategol o bob safle gwaredu morol agored o bryd i'w gilydd. Mae'r adolygiadau strategol hyn yn rhoi'r dystiolaeth ddiweddaraf ar sut mae safleoedd yn gweithio, gan sicrhau bod Gweinidogion yn parhau i gydymffurfio â gofynion OSPAR. Gellir dod o hyd i adroddiadau adolygiadau ar wefan Llywodraeth Cymru, ac mae modd gweld safleoedd gwaredu 'agored', 'segur' a safleoedd sydd 'ar gau' gan ddefnyddio'r Porth Cynllunio Morol.

### Lefelau Gweithredu

Cyn i CNC ddyroddi trwydded forol ar gyfer gweithgareddau gwaredu, rhaid profi'r gwaddodion a garthwyd. Defnyddir Canllawiau diwygiedig OSPAR ar gyfer Asesu Deunydd Carthu (Sefydliad Morwrol Rhyngwladol, 2014) sy'n ategu Atodiad 2 i Brotocol 1996 (Protocol Llundain, Sefydliad Morwrol Rhyngwladol, 2003), gan Ganolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu (Cefas) a gwyddonwyr y Llywodraeth, i osod Lefelau Gweithredu y mae'n rhaid asesu gwaddodion yn eu herbyn i benderfynu a yw'n ddiogel ac yn addas i'w gwaredu i'r môr. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda CNC a Cefas i adolygu Lefelau Gweithredu'n rheolaidd ar gyfer gweithrediadau carthu a gwaredu yn nyfroedd Cymru.

### Cyfoeth Naturiol Cymru

Mae'r tîm trwyddedu morol yn CNC yn asesu addasrwydd cais i waredu gwaddodion morol yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol a'r rhwymedigaethau rhyngwladol. I lywio'r gwaith o asesu cais i garthu a/neu waredu gwaddodion morol, bydd CNC yn samplu, dadansoddi ac asesu metelau hybrin, cyfansoddion organig a sylweddau ymbelydrol fel yr amlinellir yng Nghanllawiau CNC. Pan fo angen bydd CNC yn gofyn am gyngor gan arbenigwyr technegol priodol.

Mae CNC yn sicrhau bod safleoedd yn cael eu rheoli a'u monitro drwy amodau ar drwydded forol. Drwy amodau'r drwydded mae'n ofynnol i bob deiliad trwydded gyflwyno ffurflenni blynyddol i CNC ar y math a'r nifer o waddodion morol sydd wedi'u dyddodi yn ystod y flwyddyn. Mae CNC yn darparu'r wybodaeth hon i lywio adroddiad y DU i OSPAR.

## Ymgeisydd

### Pennu safleoedd gwaredu

Mae ymgeiswyr sy'n gwneud cais am drwydded forol yn gyfrifol am bennu safleoedd gwaredu posibl yn eu cais a allai fod naill ai'n safle agored presennol neu'n safle newydd posibl. Gan ddefnyddio'r dystiolaeth a ddarperir gan yr ymgeisydd, a all gynnwys modelu annibynnol, bydd CNC yn penderfynu a yw'r safle gwaredu a bennwyd yn briodol fel rhan o'i asesiad o'r cais am drwydded forol. Bydd CNC yn cynghori ar ofynion modelu fesul achos yn unol â chanllawiau Prosesau Ffisegol Morol, Arfordirol ac Arbenigol a gofynion monitro ar gyfer prosiectau datblygu mawr. Os bydd angen, bydd yr asesiad yn cynnwys ymgynghori ag arbenigwyr technegol.

Os na ellir pennu safle gwaredu priodol, gellid nodweddu a dynodi safle gwaredu newydd. Ymgeiswyr am drwydded forol sy'n gyfrifol am nodweddu safle gwaredu newydd. Mae'r ffactorau allweddol sy'n cael eu hystyried wrth ddewis cynnig newydd ar gyfer safle gwaredu wedi'u rhestru yng Nghanllawiau OSPAR 2014. Fel arfer da cyffredinol, dylid pennu safle gwaredu arfaethedig yn ystod y cyfnod cyn gwneud cais am drwydded forol.
Gall y rhesymau dros wneud hyn gynnwys:

- nid oes safleoedd gwaredu presennol y gall y prosiect eu defnyddio'n logistaidd,
- ni all safleoedd gwaredu presennol gymryd y math o waddod morol fydd yn cael ei garthu; a/neu
- mae'r capasiti ar y safle gwaredu presennol wedi ei gyrraedd.

### Cynghorwyr Gwyddonol Allanol

Cyn gwneud cais am drwydded forol i waredu gwaddodion morol a garthwyd yn y môr, rhaid i ymgeiswyr ymgymryd â dadansoddiad gwaddodion yn unol â chynllun samplu gwaddodion y cytunwyd arno. Rhaid i ymgeiswyr wneud cais i CNC ar gyfer cynllun samplu gwaddodion, sy'n cael ei lunio gan gynghorwyr gwyddonol allanol annibynnol. Bydd y cynllun yn cynghori ymgeiswyr ar leoliad, dull, nifer y samplau a'r mathau o ddadansoddiad cemegol a ffisegol sydd eu hangen i sicrhau y bydd y gwaddodion morol yn addas i'w gwaredu yn y môr. Mae rhestr o labordai achrededig, sy'n addas i gynnal dadansoddiad gwaddodion i gefnogi ceisiadau trwyddedau morol i'w gweld ar wefan CNC.

Gofynnir i ymgeiswyr gyflwyno canlyniadau'r dadansoddiad gwaddodion morol gyda'u cais am drwydded forol. Wrth asesu'r cais, bydd CNC yn ymgynghori â chynghorwyr gwyddonol allanol, yn ôl yr angen, sy'n cynnal gwerthusiad technegol manwl o effeithiau posibl y gweithgaredd gwaredu arfaethedig ar yr amgylchedd morol, iechyd pobl a defnyddiau cyfreithlon eraill y moroedd.

### Canolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu (Cefas)

Yn rhinwedd ei swydd fel cynghorydd gwyddonol i lywodraethau'r DU, mae Cefas yn cynrychioli'r DU mewn confensiynau rhanbarthol a rhyngwladol ar gyfer gweithrediadau carthu a gwaredu morol gan gynnwys;

- Y Confensiwn ar Warchod yr Amgylchedd Morol yn rhan Ogledd-ddwyreiniol yr Iwerydd 1992 (Confensiwn OSPAR), a
- Protocol Llundain.

Fel rhan o'i rôl yn y DU o fewn OSPAR, mae Cefas yn arwain ar roi gwybod am ffurflenni gwaredu, cydlynu diweddariadau i ganllawiau ac yn cynnal rhestr weithredol o'r holl safleoedd agored, segur neu sydd ar gau yn nyfroedd y DU, gan ddyrannu rhif cyfeirnod unigryw i bob safle.

## Opsiynau Rheoli Gwaddodion Morol a Garthwyd

Mae gwaddodion morol yn elfen bwysig o weithrediad ecosystemau, ac felly eu cadernid. Yn unol â chanllawiau OSPAR, sy'n nodi'r arfer amgylcheddol gorau ar gyfer rheoli gwaddodion morol a garthwyd, mae safbwynt Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru a CNC ar Reoli Gwaddod Morol ac Arfordirol yn gynaliadwy yn cefnogi'r ffafriaeth cyffredinol o gadw gwaddodion yn yr un gyfundrefn waddodol y cafodd ei garthu ohoni.

Fodd bynnag, gan roi sylw i Reoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011, gellir defnyddio gwaddodion hefyd i gefnogi'r economi drwy eu defnyddio mewn datblygiadau arfordirol a gellir eu defnyddio'n fuddiol i wella'r amgylchedd morol. Gall defnydd buddiol gwaddodion morol gynnwys cadw gwaddod o fewn y system waddodion naturiol i gefnogi cynefinoedd sy'n seiliedig ar waddodion, traethlinau, a seilwaith, yn ogystal ag adfer cynefinoedd a thraethau, sefydlu/amddiffyn traethlinau a defnyddio peirianneg os yw'n addas, ond nid yw'n gyfyngedig i'r rhestr hyn.

Mae yna heriau cydsynio hysbys i ddefnyddio gwaddodion morol ar gyfer prosiectau defnydd buddiol. Nodir y rhain yn y llawlyfr Adfer Cynefinoedd Morydol ac Arfordirol gyda Gwaddodion a Garthwyd. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid i fynd i'r afael â heriau cydsynio allweddol gan alluogi defnydd buddiol o waddodion morol fel opsiwn rheoli i fod yn fwy ymarferol yn dechnegol, yn gymdeithasol ac yn economaidd.